

Tyrd â'th syniad i'r bwrdd!

Cyflwyniad

Mae'n bleser gan Cywain, Menter a Busnes weithio gyda Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru ar y cyfle cyffrous iawn hwn, sy'n gofyn i chi **'Ddod â'ch Syniad i'r Bwrdd'**. Prif nod y gystadleuaeth hon yw dathlu'r cynnyrch a'r cynhyrchwyr bwyd a diod gwych sydd gennym yng Nghymru.

Mae Cywain yn brosiect sy'n cynorthwyo cynhyrchwyr bwyd a diod yng Nghymru a bydd y gystadleuaeth hon yn cynnig cyfle i chi, fel aelodau mudiad CFfl, ddangos eich sgiliau a hyrwyddo'r cynnyrch a'r cynhyrchwyr lleol yn eich ardal chi.

Rydym yn gobeithio y bydd yn tanio rhywbeth ynoch ac yn eich annog i lansio eich busnes eich hun, a phwy a wŷr, efallai mai chi fydd yr entrepreneur enwog nesaf!

Brîff y Gystadleuaeth

Rydym yn dymuno i chi greu a chyflwyno bwydlen newydd ac arloesol gan ddefnyddio cynnyrch bwyd a diod Cymreig sy'n lleol i chi, a chan gynnwys cynnyrch gan DDAU gynhyrchwr sy'n ymddangos ar fap cynhyrchwyr Cywain (**cywain.cymru**).

Rydym yn gofyn am un prif gwrs a naill ai cwrs cyntaf NEU bwdin. Byddem yn dymuno gweld diod a argymhellir hefyd er mwyn cyd-fynd â'ch dewisiadau bwyd.

Rydym yn chwilio am wreiddioldeb, sgiliau cyflwyno, plât o fwyd sy'n edrych yn wych, tystiolaeth eich bod chi wedi ymchwilio i'r cynnyrch a chynhyrchiad fideo da (**heb fod dros 3 munud**) sy'n cyflwyno'ch gwaith ymchwil a'ch bwydlen derfynol.

Meini prawf

Uchafswm penodedig o £30.00 i'w wario ar y cynnyrch, ynghyd â **thystiolaeth** ar ffurf derbynebaw. (Os byddwch yn ddigon ffodus i gael gostyngiad gan eich cynhyrchwyr lleol, dylech nodi gwerth llawn y cynnyrch, nid ei werth ar ôl cael gostyngiad)

Ni fydd gofyn i chi gynnwys cost diodydd. Bydd argymhellion yn ddigon. Bydd gofyn cyflwyno'r fideo terfynol yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Sgorio

Ymchwilio i'r cynnyrch / cynhyrchwyr	40 marc
Cysyniad / bwydlen	25 marc
Cyflwyno dwy saig yn unol â'r meini prawf. Argymhell diod addas i gyd-fynd â'r pryd. O ganlyniad i'r cyfyngiadau sydd wedi bod mewn grym yn ddiweddar oherwydd y cyfnod clo, ni chaiff y fwydlen ei beirniadu ar sail y blas, ond yn hytrach, ar y cyflwyniad gweledol cyffredinol.	15 marc
Cynhyrchu cyffredinol gan gynnwys sgiliau technegol, cyflwyno, a golwg y fideo terfynol, y dylai fod yn addas i'w rannu ar gyfryngau cymdeithasol.	15 marc
Cydymffurfio â safonau hylendid bwyd ac iechyd a diogelwch wrth baratoi'r saig.	5 marc
CYFANSWM	100 marc

Sut y gallwn eich cynorthwyo chi...

Rydym yn dymuno bod yn rhan o'ch taith a hoffem weld sut ydych yn dod ymlaen gyda'ch gwaith ymchwil, eich bwydlenni a'ch cynhyrchiad fideo terfynol, felly rydym wedi creu fframiau cyfryngau cymdeithasol er mwyn i chi rannu lluniau wrth i chi fynd yn eich blaen - a chofiwch ein tagio!

	Cywain	Menter a Busnes	CFfl / YFC
Instagram	@cywain	@menterabusnes	@cfficymru_walesyfc1
Twitter	@cywain_mab	@menterabusnes	@WalesYFC
facebook	@cywain	@menterabusnes	@cfficymruwalesyfc



#CoginioCywainCFfl

cywain.cymru ...


yn falch o gefnogi entrepreneuriaeth



Cyngor Defnyddiol

Dyma ychydig gyngor i'ch cynorthwyo wrth dynnu lluniau/fideo o'r cynnyrch:

- 1: Chwiliwch am le tawel.
- 2: Sicrhewch y golau gorau.
- 3: Sicrhewch bod eich onglau yn gywir.
- 4: Defnyddiwch y camera gorau sydd ar gael i chi.
- 5: Dylech gynnal prawf.



Y WOBR!!

Bydd Menter a Busnes yn cynnig gwobr o £1,000 at ei gilydd, a rennir fel a ganlyn:

Bydd yr Enillwyr yn cael £600.00 ar gyfer eu Clwb.

Bydd y rhai sy'n gorffen yn ail yn cael £250.00 ar gyfer eu Clwb

a bydd y rhai sy'n gorffen yn drydydd yn cael £150.00 ar gyfer eu Clwb

Yn ogystal, cynigir y cyfle i'r clwb buddugol gael sesiwn mentora gan Menter a Busnes, a fydd yn canolbwyntio ar entrepreneuriaeth a sut i fynd ati i gychwyn eich busnes eich hun.

Y darn difrifol...

Wrth i ni lansio'r gystadleuaeth hon, hoffem eich annog i barchu'r holl gyfyngiadau sydd mewn grym oherwydd pandemig y Coronafeirws. Dylech gymryd rhagofalon llawn a chadw at reolau'r Llywodraeth.

**“Rydym yn gwybod y byddwch chi...
ond mae'n rhaid i ni ofyn. Diolch.”**

Y darn pwysig iawn!

Rydym yn dymuno i chi fwynhau'r profiad hwn ac rydym yn edrych ymlaen yn fawr i weld eich seigiau a'ch cynhyrchiad fideo terfynol!

Dyddiad cau = 31/07/2021

#CoginioCywainCFFl

cywain.cymru ...

yn falch o gefnogi entrepreneuriaeth



Y Beirniaid

Rydym yn teimlo'n hynod gyffrous i gadarnhau mai'r beirniaid fydd:



Meinir Howells,
Cyflwynydd Ffermio,
S4C.



Chris Summers,
Y Crochan,
Caernarfon.



Menna Jones,
Prif Weithredwr Antur
Waunfawr ac aelod o
fwrdd cyfarwyddwyr
Menter a Busnes.

Llysgenhadon

Rydym yn falch o gael cymorth tri chennad CFfl carismatig a thalentog hefyd, y maent oll yn edrych ymlaen i hyrwyddo'r gystadleuaeth gyffrous hon. Y rhain yw:



Cadi Mars

Aelod o glwb CFfl Nantlgyn ac o Sir Clwyd. Dwi ar hyn o bryd yn fy mlwyddyn olaf o astudio Gwyddoniaeth a Thechnoleg Bwyd. Dwi'n rhedeg tudalen #Bwyd ar Instagram sydd yn cynnig ryseitiau syml ar gyfer myfyrwyr yn bennaf.



Cennydd Jones

Aelod o CFfl Pontsian, Ceredigion. Rwy'n fyfyrwr ymchwil yn IBERS, Prifysgol Aberystwyth ac yn rhedeg Traed Moch gyda'm mhartner - cwmni sydd yn gwerthu porc o'n cenfaint o foch Cymreig wedi eu magu yn gynaliadwy ac i safonau lles uchel.



Elin Havard

Merch fferm o Sir Frycheiniog ac aelod o GFfl Pontsenni. Ar hyn o bryd yn gweithio fel rhan o dîm amaeth Tesco tra hefyd yn astudio MBA mewn Bwyd ac Amaeth Cynaliadwy'n ran amser.

#CoginioCywainCFfl

cywain.cymru ...

yn falch o gefnogi entrepreneuriaeth

